

## Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 07 MAWRTH 2018, ym MedRus Mawr, Penbryn.**

Yn bresennol: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (Cadeirydd); Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor, (Prif Swyddog Gweithredu); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) (o gofnod 58); Yr Athro Judy Broady-Preston, Cyfarwyddwr Athrofa Datblygu Proffesiynol; Yr Athro Mike Gooding, Cyfarwyddwr IBERS; Yr Athro Qiang Shen, Cyfarwyddwr AMFfC; Yr Athro Tim Woods, Cyfarwyddwr ACD; Dr Hywel Griffiths, Dirprwy Gadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion; Dr Guy Baron; Yr Athro Richard Beardsworth; Yr Athro Paul Brewer; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Dr Christopher Finlayson; Mr Nigel Hardy; Dr Anwen Jones; Dr David Ceri Jones; Dr Louise Marshall; Dr Ola Olusanya; Dr Rachel Rahman; Mr Tim Davies; Ms Louise Jagger; Ms Emma Beenham, Swyddog Materion Academaidd UMABer; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu Undeb Myfyrwyr UMABer; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mrs Judith Shepherd Pennaeth y Ddarpariaeth Gydwethrediadol; a Ms Emma Williams, Cyfarwyddwr y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion (SAACH).

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Gordon Allison; Yr Athro Jo Crotty, Cyfarwyddwr ABG; Yr Athro Neil Glasser, Cyfarwyddwr ADHGS; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Yr Athro Maria Plotnikova; Yr Athro Malcolm Thomas; a Mrs Anne Uruska.

### 44. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

### 45. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017, (SEN1718-049).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

### 46. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1718-050).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

#### **47. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-051).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Senedd yr oedd yr Is-Ganghellor, Cadeirydd y Senedd, wedi cymeradwyo materion yn unol â darpariaethau'r Rheolau Sefydlog.
2. Y mater a gymeradwywyd gan yr Is-Ganghellor ar ran y Senedd oedd:
  1. cyflwyno Gradd Gyffredin, i fod yn gymhwyster gadael i ddod i rym ar unwaith i'r holl fyfyrwyr sydd yma ar hyn o bryd.

#### **48. GOHEBIAETH**

NODWYD

Derbyniodd yr Is-Ganghellor lythyr oddi wrth Gangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) ynglŷn â'r ystyriaethau allweddol i'w hystyried wrth symud yn eu blaen achosion busnes yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd. Byddai'r Is-Ganghellor yn ymateb gyda hyn (**GWEITHREDU**: Yr Is-Ganghellor).

#### **49. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1718-052).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad ar fformat newydd ac yn cynnwys tair prif ran: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad manwl ar ddenu a chofrestru myfyrwyr, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a thablau cynghrair, a ffactorau allanol pwysig; a chrynodeb o gyfathrebiadau diweddar.
2. Rhoddodd yr Is-Ganghellor grynodeb llafar o'r cynnydd a wnaed yn achos y Cynllun Cynaliadwyedd. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr Is-Ganghellor yn bwriadu cyflwyno i'r Cyngor gynnis i ad-drefnu'r sefydliad cyfan, ac y byddai'n ymgynghori â'r Senedd gyda hyn yn unol â phrosesau llywodraethu sefydledig.
3. Roedd penderfyniad Dr Timothy Brain i roi'r gorau i swydd Trysorydd y Brifysgol yn ystod mis Rhagfyr 2107 wedi rhoi cyfle i adolygu'r angen am swydd anrhydeddus o'r fath. Byddai argymhelliad i ddileu swydd y Trysorydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 23 Mawrth 2018, a'r diwygiadau o ganlyniad i hynny i Siarter ac Ystatudau'r Brifysgol. Byddai mân newidiadau hefyd yn cael eu cynnis i'r dogfennau llywodraethu yn rhan o'r broses. Ond, ni fyddai'r rhain yn effeithio ar ddarpariaethau academiaidd y sefydliad.
4. Cyflogwyd Odgers Berndtson i weithio gyda'r Brifysgol i recriwtio Aelodau Annibynnol newydd i'r corff llywodraethu, a gofynnwyd iddynt ganfod ymgeiswyr addas a chanddynt sgiliau ariannol a / neu brofiad o addysg uwch.
5. Roedd Rhestr Fer Gwobrau Dewisiadau Myfyrwyr WhatUni 2018 wedi ei chyhoeddi'r bore hwnnw. Roedd Prifysgol Aberystwyth ar y rhestr fer am saith o wobrau, gan

gynnwys gwobr Prifysgol y Flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol. Byddai'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi ar 19 Ebrill 2018.

## **50. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023: DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL ARFAETHEDIG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio; a Phennaeth Datblygu Strategol (SEN1718-053).

NODWYD

1. Ar 27 Tachwedd 2017, cymeradwyodd y Cyngor mewn egwyddor destun arfaethedig Cynllun Strategol 2018-23, a dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Cyngor ar y pryd i gymeradwyo'n ffurfiol destun a ddiwygiwyd yn dilyn derbyn unrhyw adborth munud olaf. Atodwyd copi o'r testun a gymeradwywyd i'r adroddiad.
2. Roedd 12 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u nodi a fyddai'n rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa i fonitro gweithrediad y Cynllun Strategol. Roedd y rhain wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad a chawsant eu trafod gan yr aelodau.
3. Roedd y Dirprwy Is-Gangellorion nawr yn datblygu cyfres o is-strategaethau, gan ddefnyddio'r mesurau a gynigiwyd yn rhan o'r Cynllun Strategol trosfwaol. Felly, byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn cytuno ar gyfres bellach o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol manylach yng nghyswllt yr is-strategaethau, a'u monitro.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r 12 Dangosydd Perfformiad Allweddol lefel uchel i'w cyflwyno i'r Cyngor ar 23 Mawrth 2018 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
5. Cynnig bod y Dangosyddion a ddatblygir yng nghyswllt yr is-strategaethau'n cynnwys rhai yn gysylltiedig â darpariaeth Cyrsiau Uwchraddedig, a'r amser a gymerir i lenwi swyddi gweigion ymhlith staff ( **GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

## **51. ARGYMHELLION O'R BWRDD ACADEMAIDD**

1. Rheoliadau Cyrsiau Uwchraddedig

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1718-054).

NODWYD

1. Ar 16 Chwefror 2018, roedd y Bwrdd Academaidd wedi ystyried newidiadau i reoliadau ar gyfer Cyrsiau Uwchraddedig i'w gweithredu o fis Medi 2018 ymlaen. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn gwneud y rheoliadau ar gyfer Cyrsiau Uwchraddedig yn debycach i'r rheoliadau Israddedig lle'r oedd hynny'n rhesymol, yn enwedig yng nghyswllt dyddiadau cau a nifer y cyfleoedd ailsefyll a ganiateir.
2. Trafododd yr aelodau'r diwygiadau arfaethedig yng nghyswllt 'Cyfnodau Cofrestru a Dyddiadau Cau' a nodwyd yr anghysonderau a fyddai'n parhau yn y Rheoliadau pe byddai'r newidiadau'n cael eu cymeradwyo gan y Senedd - yn arbennig yn achos ymgeiswyr dysgu o bell, ac ymgeiswyr amser llawn sy'n cymryd blwyddyn rhyng-gwrs neu flwyddyn mewn diwydiant.

**PENDERFYNWYD**

3. Gofyn i'r Bwrdd Academaidd ailystyried y diwygiadau a gynigiwyd a chyflwyno newidiadau gwahanol i'r Rheoliadau fel y gallai'r Is-Ganghellor eu hystyried a'u cymeradwyo ar ran y Senedd (**GWEITHREDU**: Y Bwrdd Academaidd).

## 52. COPI CWRS GWAG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth (SEN1718-056).

NODWYD

1. Roedd adborth gan fyfyrwyr yn nodi bod rhai'n cael anhawster i lywio trwy Blackboard, a byddai mabwysiadau fframwaith cyson i'r holl fodiwlau yn cynorthwyo yn hyn o beth. Byddai hyn, serch hynny, yn golygu bod angen creu sgerbydau modiwl diwygiedig, ac ail-lenwi'r cynnwys.
2. Felly, cynigiai'r adroddiad y dylid yn ystod haf 2018, ail-greu'r holl fodiwlau ar Blackboard heb unrhyw gynnwys ar gyfer y tymor canlynol, os oedd y modiwlau wedi'u dysgu o'r blaen ai peidio. Byddai angen felly i staff ail-lwytho'r cynnwys i'w modiwlau am y flwyddyn academaidd i ddod.
3. Pwysleisiodd yr aelodau bod angen ymgynghori â chydweithwyr academaidd er mwyn cytuno ar fframwaith diwygiedig i safleoedd Blackboard, ac na fu ymgynghori hyd yn hyn. Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd rhoi hyfforddiant ychwanegol i gydweithwyr pe byddai eu safleoedd Blackboard yn cael eu gwella.

PENDERFYNWYD

4. Cytuno mewn egwyddor ar yr angen i gael cysondeb ar draws y modiwlau ar Blackboard, a gofyn am gael cynnal cyfres o gyfarfodydd dros y misoedd i ddod er mwyn ymgynghori â chydweithwyr academaidd ynglŷn â fframwaith diwygiedig i'r modiwlau, ac yna cyflwyno adroddiad pellach i'r Senedd yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth).
5. Y dylid canfod cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant wedi'i dargedu ar gyfer cydweithwyr ynglŷn â gwella'u safleoedd Blackboard (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth).

## 53. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB

DERBYNIWYD

Drafft yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb am 2016-17 (SEN1718-057).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Gyhoeddus 2011 Cymru, mae'n rhaid i'r Brifysgol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y modd yr ydym yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn. Rhoddai'r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb amlinelliaid o'r cynnydd y mae Prifysgol Aberystwyth yn ei wneud wrth ymwreiddio cydraddoldeb ac amrywioldeb yn y sefydliad, ac wrth hybu diwylliant ac amgylchedd sy'n gynhwysol i'w myfyrwyr, ei staff ac i'r gymuned ehangach sy'n defnyddio ei hadnoddau a'i gwasanaethau.
2. Cafodd drafft yr adroddiad blynyddol ei ystyried gan aelodau'r Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ar 09 Chwefror 2018 ac argymhellwyd y dylid ei gymeradwyo, yn amodol ar fân newidiadau.

## **PENDERFYNWYD**

3. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo drafft yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb am 2016-17 (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

## **54. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN IAITH**

### **DERBYNIWYD**

Drafft o Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith am 2016-17 (SEN1718-058).

### **NODWYD**

1. Hwn fyddai'r Adroddiad Monitro olaf i'w baratoi ynglŷn â Chynllun Iaith y Brifysgol cyn y bydd PA yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau Iaith o 01 Ebrill 2018. Ar gais Comisiynydd y Gymraeg, roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y prif Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a ddarperir yn y patrwm adrodd a baratowyd gan Fwrdd yr Iaith.
2. Roedd aelodau o Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg wedi adolygu drafft yr adroddiad blynyddol ar 09 Chwefror 2018 ac wedi argymhell y dylid ei gymeradwyo.
3. Holodd rhai aelodau ynglŷn â chywirdeb peth o'r data yn yr adroddiad, yng nghyswllt nifer staff anacademaidd yr Athrofeydd a allai siarad Cymraeg. Cadarnhawyd bod y data wedi ei gael yn uniongyrchol gan yr adran Adnoddau Dynol.

## **PENDERFYNWYD**

4. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo drafft yr Adroddiad Monitro (**GWEITHREDU**: Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg).

## **55. EITEMAU ER GWYBODAETH**

### **DERBYNIWYD**

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad ar Arholiadau Semester Un (SEN1718-059);
2. Adroddiad Blynyddol Apeliadau a Chwynion Academaidd (SEN1718-060);
3. Adroddiad o Gangen PA y CCC (SEN1718-061);
4. Dyddiadau cyfarfodydd y Senedd yn 2018/19 (SEN1718-062);
5. Grantiau ymchwil a ddyfarnwyd ers cyfarfod diwethaf y Senedd (SEN1718-063); a
6. Crynodeb o Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN1718-064).

### **NODWYD**

7. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

## **56. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

### **DERBYNIWYD**

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (SEN1718-065):

1. Y Bwrdd Academaidd (16 Chwefror 2018);

2. Y Cyngor (27 Tachwedd 2017);
3. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (14 Chwefror 2018);
4. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (27 Hydref 2017); a
5. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (27 Hydref 2017);

NODWYD

5. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

## 57. UNRHYW FATER ARALL

1. Campws Llanbadarn

NODWYD

Roedd gohebiaeth yn cael ei baratoi i roi gwybod i staff am y cynllun arfaethedig i symud unedau academaidd rhwng campysau Penglais a Llanbadarn erbyn mis Medi 2018. Diolchwyd i Benaethiaid yr adrannau dan sylw ac i Reolwr Cynllunio Gofod y Brifysgol am eu gwaith ar y prosiect hwn.

2. Ffarwelio

NODWYD

Hwn fu cyfarfod olaf y Senedd i Ms Emma Beenham, am ei bod yn ymddiswyddo o fod yn Swyddog Materion Academaidd Undeb Myfyrwyr PA (UMABer) ym mis Ebrill 2018 er mwyn symud i swydd mewn lle arall. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad i UMABer ac i'r Brifysgol ers mis Mehefin 2017.

## 58. COD YMARFER FfRhY

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil; a Rheolwr Monitro Ymchwil a'r FfRhY (SEN1718-055).

NODWYD

1. Ym mis Tachwedd 2017, roedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr wedi darparu rhagor o fanylion am ei benderfyniad ynglŷn â staff a chynnyrch ymchwil ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY) 2021. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad y dylai sefydliad gyflwyno Cod Ymarfer yn manylu sut y bwriadai sicrhau 'dull deg o ddethol cynnyrch ymchwil' a phrosesau ar gyfer nodi staff i'w cyflwyno o fewn i bob Uned Aseu.
2. Amlinellai'r adroddiad syniadau'r Brifysgol hyd yn hyn ynglŷn â'r Cod Ymarfer y byddai ei angen, ac amserlen ar gyfer ei ddatblygu a'i weithredu. Yn ystod y flwyddyn, byddai CCAULI yn rhoi cyfarwyddyd pellach a phatrwm ar gyfer y Cod Ymarfer. Un o'r amodau fydd fod y Brifysgol yn ymgynghori â'r holl staff wrth ddatblygu'r Cod Ymarfer.
3. Trafodwyd yr adroddiad gan yr aelodau, gan gynnwys faint o amser i'w roi i ymchwil yn y Model Dyrannu a Rheoli Llwyth Gwaith a'r cynnyrch ymchwil disgwylidig. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael dull cadarn o asesu mewnol, ac o ddarparu hyfforddiant i gydweithwyr.